| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **17 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO –PATRICK'S BAR 57-59 FFORDD CAERGYBI, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am wyriad o drwydded eiddo Patrick's Bar 57 - 59 Ffordd Caergybi , Bangor LL57 2HE gan ddeilydd y drwydded, Patrick Steven Barry.
Gwneir y cais er mwyn ceisio am ymestyniad o oriau ar wahanol ddiwrnodau mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw a chyfleusterau ar gyfer gwneud cerddoriaeth. Yn ychwanegol gofynnir am yr hawl i ychwanegu'r gweithgareddau trwyddedig o mewn perthynas â pherfformiad dawns, a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos . Gofynnir hefyd am ymestyniad o hyd at awr yn yr oriau cau ar gyfer y Cyhoedd.
Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

| Gweithgaredd trwyddedig | Trwydded gyfredol | Trwydded arfaethedig |
|---|---|---|
| **Cyflenwi alcohol** | Sul - Mawrth<br>**08:00 – 01:30** | Sul - Mawrth<br>**08:00 – 01:30** |
| | Mercher - Iau<br>**08:00 – 02:00** | Mercher - Iau<br>**08:00 – 02:00** |
| | Gwen - Sad<br>**08:00 – 02:00** | Gwen - Sad<br>**08:00 – 02:30** |
| | | |
| **Cerddoriaeth fyw** | Sul – Mercher<br>**19:00 – 00:00** | Sul – Mercher<br>**19:00 – 00:00** |
| | Iau<br>**19:00 – 00:00** | Iau<br>**19:00 – 01:00** |
| | Gwen – Sad<br>**19:00 – 00:00** | Gwen – Sad<br>**19:00 – 02:00** |
| | | |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio** | Sul – Mawrth<br>**11:00 – 00:00** | Sul – Mawrth<br>**11:00 -01:30** |
| | Mercher – Iau<br>**11:00 – 00:00** | Mercher – Iau<br>**11:00 – 02:00** |
| | Gwen – Sad<br>**11:00 – 00:00** | Gwen – Sad<br>**11:00 – 03:00** |
| | | |
| **Darpariaeth ar gyfer gwneud cerddoriaeth** | Sul – Mercher<br>**10:00 – 00:00** | Sul – Mercher<br>**10:00 – 00:00** |
| | Iau<br>**10:00 – 00:00** | Iau<br>**10:00 – 01:00** |
| | Gwen – Sad<br>**10:00 – 00:00** | Gwen – Sad<br>**10:00 – 02:00** |
| (PARHAD) | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Perfformiad dawns** | Dim | Sul – Mawrth<br>**10:00 -01:30** |
| | Dim | Mercher – Iau<br>**10:00 – 02:00** |
| | Dim | Gwen – Sad<br>**10:00 – 02:30** |
| | | |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos** | Dim | Sul – Mawrth<br>**23:00 -01:30** |
| | Dim | Mercher – Iau<br>**23:00 – 02:00** |
| | Dim | Gwen – Sad<br>**23:00 – 02:30** |
| | | |
| **Oriau agor a chau i'r cyhoedd** | Sul – Mawrth<br>**08:00 -01:30** | Sul – Mawrth<br>**08:00 -02:00** |
| | Mercher – Iau<br>**08:00 – 02:00** | Mercher – Iau<br>**08:00 – 02:30** |
| | Gwen – Sad<br>**08:00 – 02:00** | Gwen – Sad<br>**08:00 – 03:00** |
| | | |

Yn ychwanegol i'r cais am ymestyniad oriau , gofynnir am ganiatâd i ddileu neu adolygu rhai o'r amodau yn Atodiad 2 o'r Drwydded gyfredol sy'n cyd fynd a'r Atodlen Weithredu ar gyfer y drwydded, fel a ganlyn -

- Gofynnir am ddileu'r amod i beidio caniatáu mynediad i'r Cyhoedd i'r eiddo ar ôl 23:30
- Cytuno i gynnwys amodau yn unol â chytundeb a'r Heddlu parthed TCC a Goruchwylwyr Drysau ( gweler sylwadau'r Heddlu a'r atodiad i'r cais)
- Mae'r ymgeisydd yn cytuno i gynnwys amodau mewn perthynas â rheoli niwsans sŵn (gweler manylion yr amodau ynghlwm a'r cais)

**YMGYNGHORIAD**

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelodau lleol | 2 e bost - gwrthwynebu |
| Aelodau Cyngor Dinas Bangor | 2 e bost - gwrthwynebu |
| Upper Bangor Society | 1 e bost yn gwrthwynebu gyda 8 enw |
| Heddlu | 1 e bost - dim gwrthwynebiad -gydag amodau |
| Preswylwyr cyfagos | 1 llythyr - gwrthwynebu |
| | |

**Gwrthwynebiad - Aelodau lleol**

Mae'r aelodau lleol yn gwrthwynebu ar sail yr amcanion trwyddedu o

- atal trosedd ac anrhefn
- ac atal niwsans cyhoeddus,

mewn perthynas â'r ymestyniad oriau ac ychwanegiad at y gweithgareddau trwyddedig. Datganir fod Bangor Uchaf yn gylchfa breswyl; a bod yr ymestyniad yn mynd i amharu ar breswylwyr sydd wedi eu lleoli yn agos iawn i'r eiddo.

**Gwrthwynebiad – Aelodau Cyngor Dinas Bangor**
Mae gwrthwynebiad aelodau Cyngor Dinas Bangor yn cael ei wneud ar sail yr amcanion trwyddedu o –

- Atal trosedd ac anrhefn
- Rhwystro niwsans cyhoeddus

Cyflwynwyd y gwrthwynebiad oherwydd pryder am leoliad yr eiddo trwyddedig yn agos i eiddo preswyl, ac yn benodol yn agos i anheddau ar gyfer pobl hŷn.
Datganir pryder fod y cais yn mynd yn groes i amcanion y Cyngor i warchod cymunedau.

**Gwrthwynebiad – Upper Bangor Society**
Cyflwynwyd e bost o wrthwynebiad ar ran sawl aelod o'r Upper Bangor Society. Datganwyd pryderon y byddai ymestyniad ar oriau yn tanseilio'r amcanion trwyddedu o

- Atal trosedd ac anrhefn
- Rhwystro niwsans cyhoeddus

**Gwrthwynebiad - preswylydd cyfagos**

Mae'r preswylydd yn byw yn agos i'r eiddo trwyddedig ac yn bryderus fod ymestyniad mewn oriau yn mynd i arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cyhoeddus.

**Sylwadau ac argymhellion yr Heddlu**
Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais, ond argymhellir amodau i'w cynnwys ar y drwydded yn dilyn cytundeb gyda'r ymgeisydd mewn perthynas â TCC, Goruchwylwyr Drysau, gweler manylion yr hyn a gytunwyd wedi ei atodi i'r cais.

Gweler y manylion llawn ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.